**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

27 Tachwedd 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Tachwedd ynghylch Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ystyried y Rheoliadau hyn yn ofalus. Rwy'n cytuno ei bod yn bwysig bod y Rheoliadau yn glir, yn hygyrch, a bod modd eu rhoi ar waith. I'r perwyl hwn, rwyf wedi penderfynu tynnu'r Rheoliadau hyn yn ôl cyn y ddadl a drefnwyd ar eu cyfer ar 28 Tachwedd 2023.

Rwy'n bwriadu gosod Rheoliadau diwygiedig i gyflawni'r un bwriad polisi. Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn dal i geisio estyn neu gymhwyso'r Cynllun Cymorth Symud ond byddant yn mynd i'r afael â'r pwyntiau penodol a godwyd gan y Pwyllgor.

Yn benodol, bydd y Rheoliadau newydd yn ei gwneud yn eglur nad yw rheoliadau 3(5C) na 3(5D) yn gweithredu mewn cyfraith mwyach, ac yn ailddatgan y darpariaethau yn adrannau newydd 3(5E) a 3(5F).

O ganlyniad i'r diwygiad hwn, ni fydd y rheoliadau drafft newydd yn ceisio gwneud darpariaeth ôl-weithredol mewn perthynas â rheoliad 3(5C) o Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019. Mae hyn yn golygu na fydd esemptiad ôl-weithredol rhag ffioedd ar gyfer symudiadau penodol o bren, cynhyrchion pren, rhisgl wedi ei wahanu na pheiriannau coedwigaeth sydd wedi eu defnyddio. Yn hytrach, bydd yr esemptiad ffioedd perthnasol bellach ar waith rhwng 1 Ionawr 2024 a 30 Mehefin 2025. Yn anffodus, mae hyn yn golygu na fydd esemptiad ffioedd ar waith ar gyfer symudiadau penodol o ddeunyddiau penodol a reoleiddir ar gyfer 2023 am nad yw'r ddarpariaeth wedi ei hestyn yn flaenorol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, ystyrir bod y risg y gallai hyn gael effaith andwyol ar fusnesau yn isel.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn sicrhau nad oes bwlch yn y ddarpariaeth o esemptiadau ffioedd mewn perthynas â symud deunydd a reoleiddir o dan Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2018, mae angen i'r Rheoliadau hyn ddod i rym erbyn 31 Rhagfyr 2023. Er mwyn i hyn allu digwydd, byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor yn craffu ar y Rheoliadau diwygiedig yn gyflymach, a hynny cyn cyfarfod llawn olaf y flwyddyn ar 12 Rhagfyr. Fy mwriad yw trafod y Rheoliadau newydd yn ystod y cyfarfod hwn.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ystyried y Rheoliadau hyn mor ddiwyd.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**